# Canllaw Rheoli Risg: Rheoli Risg Er Mwyn Darparu Gwasanaethau Gwell

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canllaw a pholisi rheoli risg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer rheoli risg yn gyson yn holl wasanaethau'r Cyngor.  Mae’n adnodd i unrhyw un sy’n gweithio yn y Cyngor, yn ogystal â chanllaw i’r rhai sy’n derbyn ein gwasanaethau.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English. Rydym hefyd yn hapus i ddarparu’r ddogfen hon mewn print bras, fersiwn sain a braille – cysylltwch â’r Tîm Perfformiad a Gwella.**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

## Mae arnom eisiau clywed eich barn!

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac yn credu ei bod yn hanfodol clywed llais pawb a'u cydnabod. Hoffem glywed gennych chi am yr hyn sy'n effeithio arnoch. A yw ein nodau hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned, ac a ydym yn gwneud y pethau iawn? I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, cysylltwch â ni.

**Dros e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni gan ddefnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion, drwy Wasanaeth InterpretersLive! y mae Sign Solutions yn ei ddarparu – ewch i www.conwy.gov.uk/cy/Council/Contact-Us/Sign

**Drwy'r post:** Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y naill iaith na'r llall.

## Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw'r dyfodol a hoffem glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle i chi leisio'ch barn. Mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid, neu cysylltwch â ni:

**Dros e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh. Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar-lein.

Hoffwch ni ar Facebook.

Ewch ar ein gwefan i gael gwybod am wasanaethau, yn cynnwys i weld ein Cynllun Corfforaethol ac adroddiadau perfformiad.

Ewch i'n tudalen we 'Dweud eich dweud'

# Cynnwys


1.0. Beth yw Rheoli Risg? ..... 5

2.0. Sut i Nodi Risg ..... 8

3.0. Sut i Asesu Risg ..... 11

4.0. Sut i Reoli Risg ..... 14

5.0. Sut i Fonitro a Rheoli Risg ..... 17

6.0. Rhywbeth i Bawb: Deall Eich Rôl wrth Reoli Risg! ..... 19

6.1. Aelodau’r cyhoedd ..... 19

6.2. Aelodau Etholedig ..... 21

6.3. Aelodau Staff ..... 24

7.0. Geirfa ..... 30

Atodiad 1 - Fframwaith a Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg ..... 33

Atodiad 2 - Nodweddion Risg Gorfforaethol ..... 40

Atodiad 3 - Adnodd i helpu i ddynodi achos y risg ..... 41

Atodiad 4 – Templed Cofrestr Risg ..... 42

# 1.0. Beth yw Rheoli Risg?

Rheoli Risg yw'r ffordd rydym yn nodi, asesu, rheoli a monitro bygythiadau a chyfleoedd posibl a pha mor debygol ydynt o ddigwydd. Drwy reoli ein risgiau'n dda, gallwn amddiffyn ein hunain rhag bygythiadau posibl, lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio'n ymdrin â phroblemau a chael digwyddiadau negyddol annisgwyl. Yna, gallwn fanteisio ar gyfleoedd i sicrhau bod prosesau'n cael eu cynnal yn fwy effeithlon, darparu gwell gwasanaethau a chefnogi penderfyniadau da.

## 1.1. Pam bod Rheoli Risg yn bwysig?

Ein nod yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n rhoi gwerth am arian, ond er mwyn gwneud hyn, rhaid i ni ddeall a rheoli ein risgiau ym mhopeth a wnawn. Mae arnom eisiau i reoli risg fod yn rhan o benderfyniadau bob dydd, i'n helpu i gymryd y risgiau cywir i gyflawni ein blaenoriaethau, wrth osgoi risgiau annerbyniol sy'n peryglu ein canlyniadau. Mae rheoli risg yn ein helpu i osgoi costau annisgwyl neu fethiannau mewn gwasanaethau; gwarchod ein henw da ac ymddiriedaeth y gymuned; gwneud penderfyniadau gwybodus; a helpu i gyflawni ein nodau.

### 1.1.1. Amcanion:

1. Gwneud rheoli risg yn rhan o'r ffordd rydym yn gweithio yn y Cyngor cyfan.
2. Meithrin diwylliant ble mae risgiau'n cael eu deall a'u rheoli'n ddoeth, gan ddefnyddio ffordd o feddwl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein hymagwedd.
3. Cynnal hyder y cyhoedd yn ein gwasanaethau.
4. Bod yn barod am ddigwyddiadau annisgwyl.
5. Dilyn safonau cyfreithiol ac arfer gorau.

### 1.1.2. Egwyddorion

- Mae rheoli risg yn rhan o waith pawb.
- Mae'n broses barhaus, nid tasg untro.
- Rhaid i wybodaeth risg fod yn amserol, cywir a defnyddiol.
- Dylai'r broses fod yn effeithiol, ond nid yn rhy gymhleth na drud.

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio'n polisi ar gyfer Rheoli Risg ac mae'n egluro sut rydym yn rheoli risg yn gyson yn y Cyngor cyfan i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n

effeithiol, yn effeithlon ac yn ddiogel. Bydd y penodau yn y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall pob rhan o'r broses, gan amlinellu'n glir y camau sy'n rhaid i ni eu dilyn er mwyn:

1. **Canfod:** Deall beth yw'r risg.
2. **Asesu:** Deall pa mor ddifrifol ydyw.
3. **Rheoli:** Cymryd camau i reoli'r risg.
4. **Monitro:** Adolygu rheolyddion yn rheolaidd.

I gael mwy o wybodaeth am reoliadau'n ymwneud â rheoli risg, cyfeiriwch at Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 1.2. Beth yw risg?

Ein diffiniad o risg yw **"Digwyddiad, pe bai'n digwydd, a fyddai'n effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus."**

Yn aml iawn mae *problemau* sydd wedi codi yn cael eu camgymryd am risg. Ein diffiniad o broblem yw **"Digwyddiad hirdymor nad oes modd ei ddatrys yn aml, sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ac mae camau lliniaru ar y gweill neu'n cael eu cynllunio."**

Pan fydd risg yn ymddangos ac yn dod yn broblem, dylem ailasesu'r sefyllfa i nodi unrhyw risgiau newydd a allai godi o ganlyniad i hyn. Os oes posibilrwydd y bydd y broblem yn gwaethygu, dylai barhau ar y gofrestr risg, a dylid nodi'n glir yn y disgrifiad ei bod yn broblem barhaus.

## 1.3. Pryd y dylwn i ystyried risgiau?

Mae canfod ac asesu risgiau'n barhaus, ynghyd â chymryd camau lliniaru priodol yn hanfodol i gyflawni ein canlyniadau'n llwyddiannus. Wrth i'r amgylchedd allanol newid ac wrth i benderfyniadau newydd gael eu gwneud am sut mae'r Cyngor yn cael ei redeg, bydd angen adolygu risgiau wrth i natur a lefel risgiau presennol a newydd barhau i newid.

Dylai rheoli risg gael ei ymgorffori i'r drefn gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd. Dylai timau drafod risgiau a chamau lliniaru yn rheolaidd, yn ystod sgyrsiau un i un â rheolwyr atebol, mewn cyfarfodydd rheoli. Yn ei hanfod, dylai fod yn rhan o'n diwylliant o ddydd i ddydd.

Mae ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol yn ddogfen fyw y gellir ei diweddaru ar unrhyw bryd, yn ogystal â chofrestrau risg gwasanaethau, rhaglenni a phrosiectau. Er hyn, mae'n

arfer da adolygu'r rhain yn ffurfiol o leiaf ddwywaith y flwyddyn i asesu cynnydd ac unrhyw newidiadau i statws y risg.

## 1.4. Pa fathau o risgiau ydyn ni'n eu rheoli?

Mae tri prif fath o risgiau rydym yn eu rheoli.

1. **Risgiau Corfforaethol:** Risgiau sylweddol a allai effeithio ar ein gallu i fodloni amcanion corfforaethol a gwasanaeth hirdymor, a'n gallu i gyflawni dyletswyddau statudol. Gellir dod o hyd i nodweddion risg gorfforaethol yn atodiad 2.
2. **Risgiau'r Gwasanaeth:** Yn benodol i feysydd gwasanaeth unigol sy'n bygwth ein gweithrediadau ac a allai gael effaith ar ddarparu gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gallai'r heriau hyn gynnwys iechyd a diogelwch, diogelwch gwybodaeth, parhad gwasanaeth, partneriaethau a ffactorau gweithredol eraill.
3. **Risgiau Rhaglenni a Phrosiectau:** Risg sy'n atal darparu prosiect neu raglen yn llwyddiannus.

Rydym yn cofnodi ac yn monitro ein holl wybodaeth risg drwy ein System Gorfforaethol Rheoli Perfformiad (CAMMS-Riskonnect).

## 1.5. Ystyried Lles Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn ôl y Ddeddf, rhaid i'r Cyngor ystyried yn hirdymor, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau, partneriaid a'r naill a'r llall, a chanolbwyntio ar atal problemau cyn iddynt godi. Rhaid gwneud pob penderfyniad yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy - h.y. a yw anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain?

I roi'r egwyddor hon ar waith, rhaid i ni ddefnyddio'r pum ffordd o weithio (Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chyfranogi). Mae'r dulliau hyn yn ein helpu i nodi a rheoli risgiau a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth a'r cymunedau rydym yn eu cefnogi yn awr ac yn y dyfodol.  Drwy fframio risgiau drwy lygaid nodau lles y Ddeddf a'r pum ffordd o weithio, gallwn gymryd camau cadarnhaol i'w rheoli'n effeithiol yn y tymor byr, canolig a hir.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf, edrychwch ar Hanfodion Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar-lein.

## 2.0. Sut i Nodi Risg

Wrth adnabod ac asesu ein risgiau, dylid ystyried y canlynol:

- Cwmpas y gweithgareddau sydd i'w hasesu (e.e. corfforaethol, gwasanaeth, cydweithredol neu brosiect) a'r blaenoriaethau a'r amcanion cysylltiedig (e.e. cynllun corfforaethol, amcanion prosiect).
- Effaith yr amgylchedd allanol sy'n newid dros y tymor byr, canolig a hir. Gallai hyn gynnwys newidiadau gwleidyddol, rheoliadol, economaidd, deddfwriaethol a chymunedol - cyfeiriwch at y categorïau isod.
- Effaith yr amgylchedd mewnol sy'n newid dros y tymor byr, canolig a hir. Gallai hyn gynnwys newid y broses, disgwyliadau a gallu'r gwasanaeth ac ati.
- Pa lefel o risg y mae'r Cyngor yn barod i'w chymryd mewn perthynas â'r gweithgareddau dan sylw - mewn geiriau eraill, ein parodrwydd i dderbyn risg!

### 2.1. Categorïau Risg

I sicrhau ymdriniaeth gyson ar draws y Cyngor, rydym yn defnyddio'r **categorïau risg** canlynol. Mae'r rhain yn ein helpu i ddynodi risgiau, deall o ble maen nhw'n dod a pha effaith allen nhw eu cael ar ein nodau.

#### 2.1.1. Gwleidyddol: Yn codi o'r sefyllfa wleidyddol

- Newid i bolisi'r Llywodraeth
- Cyfansoddiad gwleidyddol
- Cylchoedd etholiadol
- Strwythur gwneud penderfyniadau
- Camdriniaeth (e.e. twyll, llygredigaeth)
- Rheoli enw da

#### 2.1.2. Economaidd ac Ariannol: Yn codi o'r sefyllfa economaidd, a'r fframwaith cynllunio ariannol

- Trysorlys – buddsoddiadau, diwygiadau
- Darogan y galw
- Cystadleuaeth a'r effaith ar brisiau
- Y sefyllfa economaidd gyffredinol / ranbarthol, yn cynnwys cyfyngiadau'r gyllideb a thoriadau i wasanaethau

- Gwerth / cost asedau cyfalaf

### 2.1.3. Cymuned: Demograffeg, tueddiadau cymdeithasol a bodloni anghenion neu ddisgwyliadau cwsmeriaid

- Patrymau a phroffil preswyl
- Gofal Cymdeithasol
- Adfywio
- Gofal cwsmer
- Ansawdd ymgynghori â'r gymuned

### 2.1.4. Technolegol: Yn codi o'r gallu i ymdrin â chyflymdra'r newid a'r sefyllfa dechnolegol (yn cynnwys meddalwedd, caledwedd, deallusrwydd artiffisial a roboteg)

- Gallu i ymdrin â newid neu ddatblygiad
- Cyflwr pensaernïaeth
- Technoleg ddarfodedig
- Perfformiad presennol a dibynadwyedd
- Diogelwch a safonau
- Prosiect neu system allweddol yn methu
- Defnydd moesegol a chyfrifol o dechnoleg

### 2.1.5. Rheoliadol / Deddfwriaethol: Yn codi o newidiadau deddfwriaethol presennol a phosib a/neu dor-deddfwriaeth, a gwybodaeth reoliadol y sefydliad

- Deddfwriaeth a rheoliadau newydd
- Delio â rheoleiddwyr
- Heriau cyfreithiol neu adolygiadau barnwrol
- Pa mor ddigonol yw'r cymorth cyfreithiol

### 2.1.6. Amgylcheddol: Yn ymwneud â'r amgylchedd ffisegol

- Math o amgylchedd (trefol, gwledig, cymysg)
- Defnydd tir – tir llain las, safleoedd tir llwyd
- Materion gwaredu gwastraff ac ailgylchu

- Effaith argyfwng sifil (h.y. llifogydd)
- Problemau traffig, cynllunio a chludiant
- Llygredd, allyriadau, sŵn
- Newid yn yr hinsawdd ac arbed ynni

### 2.1.7. Proffesiynol neu reolaethol: Yr angen i fod yn rheolaethol a phroffesiynol gymwys

- Adolygiadau cymheiriaid
- Sefydlogrwydd strwythur swyddogion a diwylliant
- Cymhwysedd a chapasiti
- Fframweithiau a phrosesau rheoli
- Trosiant, recriwtio a chadw staff
- Materion penodol i broffesiwn

### 2.1.8. Peryglon ffisegol ac iechyd a diogelwch: Peryglon ffisegol yn gysylltiedig â phobl, tir, adeiladau, cerbydau a chyfarpar

- Iechyd, diogelwch a lles staff, partneriaid a'r gymuned
- Cadw cofnodion ar ddamweiniau a digwyddiadau
- Arferion cynnal a chadw
- Diogelwch staff, asedau, adeiladau a chyfarpar
- Natur a chyflwr y sail asedau

### 2.1.9. Partneriaethau neu gontractau: Partneriaethau, contractau a chydweithio

- Partneriaid allweddol – cyhoeddus, preifat a gwirfoddol
- Fframweithiau atebolrwydd a ffiniau partneriaethau
- Prosiectau mawr gyda mentrau ar y cyd
- Gwasanaethau a brynir i mewn
- Rheoli perthynas
- Rheoli newid / strategaethau ymadael
- Parhad Busnes
- Partneriaethau – rhwymedigaethau contractau

## 2.2. Sut ydw i'n disgrifio risg?

Mae dod o hyd i'r geiriau cywir i ddisgrifio risg yn bwysig. Rhaid iddo fod yn benodol i sicrhau bod y risg yn cael ei deall yn llawn ac fel ein bod yn gallu nodi camau gweithredu i reoli'r risgiau. Fe'ch cynghorir i ddechrau disgrifiad gyda "Y risg bod…" neu "Y risg o…" Dyma rai brawddegau defnyddiol wrth ddisgrifio risg:

- Y risg o anallu i…
- Y risg o anaddasrwydd…
- Y risg o gamfanteisio….
- Y risg bod gostyngiad …
- Y risg o darfu…
- Y risg o golli …
- Y risg bod rhywbeth yn annigonol …
- Y risg bod difrod i…

Mae deall achos y risg yn llawn a'i grynhoi'n gywir hefyd yn bwysig. Yn Atodiad 3 mae adnodd defnyddiol y gellir ei ddefnyddio i nodi achos risg. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r gair "methu" mewn disgrifiadau o risg. Mae methu â gwneud rhywbeth yn aml yn diystyru'r digwyddiad neu amgylchiadau a allai arwain at fethiant.

# 3.0. Sut i Asesu Risg

Ar ôl dynodi risg, mae'n bwysig ei hasesu i ddeall pa mor debygol yw o ddigwydd a beth fyddai'r effaith. Rydym yn defnyddio adnodd syml i werthuso, blaenoriaethu a sgorio risgiau drwy edrych ar:

1. **Tebygolrwydd:** Pa mor debygol yw'r risg o ddigwydd?
2. **Effaith**: Pa mor ddifrifol fyddai'r canlyniadau pe bai'n digwydd?

## 3.1. Graddio tebygolrwydd digwyddiad

| Graddfa | % Siawns | Disgrifiad |
|---|---|---|
| A: Bron yn sicr | Mwy na 70% | Bron yn sicr o ddigwydd dan y rhan fwyaf o amgylchiadau |
| B: Tebygol | 30 – 70% | Tebygol o ddigwydd dan y rhan fwyaf o amgylchiadau |
| C: Posibl | 10:30 | Mae'n bosibl y bydd yn digwydd ar ryw adeg |

| | | |
|---|---|---|
| D: Annhebygol | 1 – 10% | Annhebygol ond gallai ddigwydd ar ryw adeg |
| E: Prin | Llai nag 1% | Prin a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gallai ddigwydd |

### 3.2. Sgorio effaith digwyddiad

| Sgôr | Enw Da | Perfformiad | Cost ariannol |
|---|---|---|---|
| **1** Uchel Iawn | Difrodi ymddiriedaeth yn ddifrifol ac adfer yn llawn yn amheus a chostus | Niwed / digwyddiad, gwallau neu amhariad catastroffig na ellir ei wyrdroi. Methu â darparu gweithgareddau craidd. Peryglu amcanion strategol | Mwy na £5 miliwn |
| 2: Uchel | Adfer ymddiriedaeth am gost sylweddol a llawer o sylw gan reolwyr | Niwed/ digwyddiad, gwallau neu amhariad mawr. Gellir cildroi'r effaith gydag ymdrech fawr a sylw rheolwyr | £1 miliwn - £5 miliwn |
| **3.** Canolig | Adfer ymddiriedaeth yn gofyn am awdurdodiad cost y tu hwnt i gyllidebau presennol | Niwed/ digwyddiad, gwallau neu amhariad cymedrol Gellir cildroi'r effaith gydag ymdrech gymedrol. | £350,000 - £1 miliwn |
| **4.** Isel | Adfer ymddiriedaeth am gost fechan gyda dyraniad adnoddau o fewn y gyllideb. | Niwed/ digwyddiad, gwallau neu amhariad bychan. Gellir cildroi'r effaith gydag ychydig o ymdrech | £50,000 - £350,000 |
| 5: Isel Iawn | Adfer ymddiriedaeth heb fawr ddim ymdrech neu gost. | Niwed/ digwyddiad, gwallau neu amhariad bychan iawn. Gellir cildroi'r effaith gydag ychydig iawn o ymdrech | Llai na £50,000 |

Darperir categorïau ychwanegol - Perfformiad, Cyllid ac Enw Da - i helpu i amcangyfrif y sgôr risg. Dylid dewis y categori gyda'r risg uchaf i helpu i sgorio'r risg.

Mae'r diagram isod yn dangos y tablau uchod mewn fformat arall, a allai fod yn fwy defnyddiol i ddefnyddwyr.

## 3.3 Diagram Matrics Risg

| Likelihood | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Almost certain to occur in most circumstances | >70% | A - Almost Certain | | | | | |
| | Likely to occur in most circumstances | 30-70% | B - Likely | | | | | |
| | Will possibly occur at some time | 10-30% | C - Possible | | | | | |
| | Unlikely but may occur at some time | 1-10% | D - Unlikely | | | | | |
| | Rare & may only occur in exceptional circumstances | <1% | E - Rare | | | | | |
| | | | | 5 – Very low | 4- Low | 3 - Medium | 2- High | 1 – Very high |

| | 5 – Very low | 4- Low | 3 - Medium | 2- High | 1 – Very high |
|---|---|---|---|---|---|
| Reputation | Trust recoverable with little effort or cost. | Trust recoverable at modest cost with resource allocation within budgets. | Trust recovery demands cost authorisation beyond existing budgets. | Trust recoverable at considerable cost and management attention. | Trust severely damaged and full recovery questionable and costly. |
| Performance | Minimal harm / Incident, errors or disruption. Impact reversible with minimal effort. | Minor harm/ Incident, errors or disruptions. Impact reversible with minor effort. | Moderate harm /, Incident, errors or disruption. Impact reversible with moderate effort. | Major harm / Incident, errors or disruption. Impact reversible with major effort and management attention | Catastrophic Harm/ Incident, errors or disruption is not reversible. Unable to deliver core activities. Strategic aims compromised. |
| Financial Cost | <£50k | £50 - £350k | £350k - £1m | £1m - £5m | >£5m |
| Impact | | | | | |

Mae lefel y risg yn cael ei gyfrifo drwy edrych ar ba mor debygol ydyw o ddigwydd a pha mor fawr fyddai'r effaith. Yna, dosberthir y risg fel critigol, mawr, cymedrol neu fach - gweler y tabl isod. Mae hyn yn ein helpu i benderfynu os oes angen cymryd camau pellach ac a ddylid uwchgyfeirio'r risg.

## 3.4. Difrifoldeb y Risg a Meini Prawf Uwchgyfeirio

| Difrifoldeb y Risg | Meini Prawf Uwchgyfeirio |
|---|---|
| **Bach:** | Gellir rheoli'r risg yn hawdd yn lleol – nid oes angen cynnwys rheolwyr |
| **Cymedrol:** | Gellir rheoli'r risg ar lefel gwasanaeth – mae'n bosibl y bydd angen rhoi gwybod i uwch reolwyr a'r Tîm Arwain Strategol |
| **Mawr:** | Ymyrraeth gan yr Uwch Dîm Rheoli, Tîm Arwain Strategol gan gynnwys y Cabinet |
| **Critigol:** | Ymyrraeth sylweddol gan y Tîm Arwain Strategol a'r Cabinet |

### 3.5. Risg Gynhenid a Gweddilliol

Dylid sgorio pob risg ar sail gynhenid yn ogystal â gweddilliol. Y **Risg Gynhenid** yw'r sgôr a roddir cyn i unrhyw gamau gael eu cymryd i'w rheoli. Y **Risg Weddilliol** yw'r gwerthusiad risg fel y mae ar hyn o bryd pan fydd rheolyddion wedi cael eu rhoi ar waith.

Ni ddylai'r sgôr Risg Gynhenid fyth fod yn fwy na'r sgôr Risg Weddilliol. Pan fydd y sgoriau yr un fath, mae'r rheolyddion un ai'n aneffeithiol neu prin yn atal y sefyllfa rhag gwaethygu. Yn ddelfrydol, byddai'r sgôr gweddilliol yn gwella wedi i reolyddion gael eu rhoi ar waith.

## 4.0. Sut i Reoli Risg

Mae'n bwysig rhoi'r reolaeth gywir ar waith, ond er mwyn deall faint o ymdrech i'w roi i liniaru, mae'n ddefnyddiol cael rhywfaint o gyd-destun sefydliadol am faint o risg rydym yn barod i'w goddef i ddechrau.

### 4.1. Parodrwydd i Dderbyn Risg

Parodrwydd i Dderbyn Risg yw lefel y risg yr ydym yn barod i'w goddef neu ei derbyn wrth gyflawni ein hamcanion strategol hirdymor. Mae penderfynu a mynegi ein parodrwydd i dderbyn risg yn caniatáu i ni ystyried pob dewis i ymateb i risg a gwneud penderfyniadau gwybodus sydd fwyaf tebygol o arwain at ganlyniad llwyddiannus, wrth darparu lefel dderbyniol o werth am arian hefyd. Mae'n ddefnyddiol ar gyfer gwirio pa mor barod ydym ni i dderbyn risg (a ydym eisiau osgoi risg neu a ydym yn awyddus i gymryd risg?) gyda'n blaenoriaethau corfforaethol, rhaglenni, prosiectau, risgiau gwasanaeth neu gorfforaethol ac ati. Fodd bynnag, waeth beth yw'r parodrwydd i dderbyn risg, rhaid eu rheoli â rheolyddion priodol ar waith bob amser. Rydym yn defnyddio'r dosbarthiad a'r disgrifiad canlynol ar gyfer Parodrwydd i Dderbyn Risg:

| Dosbarthiad | Disgrifiad | Difrifoldeb Risg sy'n cael ei Oddef |
|---|---|---|
| **Arloesol** | Yr awydd i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig gwobrau busnes a allai fod yn uwch er gwaethaf mwy o risg gynhenid. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes cyfyngiad ar y risg rydym yn ei derbyn - mae'n dal i gael ei rheoli â rheolyddion. | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)**<br>**Mawr (Oren)**<br>**Critigol (Coch)** |
| **Agored** | Y parodrwydd i ystyried yr holl opsiynau dosbarthu a dewis un sy'n fwyaf tebygol o | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)** |

| | | |
|---|---|---|
| | arwain at gyflawni'n llwyddiannus gyda lefel dderbyniol o wobr (a gwerth am arian). | **Mawr (Oren)** |
| **Gofalus** | Ffafrio opsiynau diogel sydd â risg gynhenid ganolig ac sydd â rhywfaint o botensial am wobrau. | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)** |
| **Minimalaidd:** | Ffafrio opsiynau hynod ddiogel sydd ag ychydig o risg gynhenid ac sydd â'r potensial am wobrau cyfyngedig yn unig. | **Bach (Gwyrdd)** |
| **Niweidiol** | Osgoi risg ac ansicrwydd. | **Ni oddefir unrhyw risg** |

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r goddefiadau rydym wedi'u gosod yn ein Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg. Gweler ein Datganiad a Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

| Categori Parodrwydd i Dderbyn Risg | Parodrwydd i Dderbyn Risg | Difrifoldeb Risg sy'n cael ei Oddef |
|---|---|---|
| **Enw Da a Hygrededd** | **Agored:** Y parodrwydd i ystyried yr holl opsiynau a dewis un sy'n fwyaf tebygol o arwain at gyflawni'n llwyddiannus gyda lefel dderbyniol o wobr (a gwerth am arian). | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)**<br>**Mawr (Oren)** |
| **Darpariaeth Weithredol a Pholisi** | **Agored:** Y parodrwydd i ystyried yr holl opsiynau a dewis un sy'n fwyaf tebygol o arwain at gyflawni'n llwyddiannus gyda lefel dderbyniol o wobr (a gwerth am arian). | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)**<br>**Mawr (Oren)** |
| **Ariannol - Prosiectau** | **Gofalus:** Ffafrio opsiynau diogel sydd â risg gynhenid ganolig ac sydd â rhywfaint o botensial am wobrau. | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)** |
| **Ariannol - Rheoli'r Trysorlys** | **Gofalus:** Ffafrio opsiynau diogel sydd â risg gynhenid ganolig ac sydd â rhywfaint o botensial am wobrau. | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)** |
| **Cydymffurfiaeth a Rheoleiddio - Diogelu** | **Minimalaidd:** Ffafrio opsiynau hynod ddiogel sy'n ymwneud â lles unigolion, gyda risg gynhenid isel ac sydd â'r potensial am wobrau cyfyngedig (diogel) yn unig. | **Bach (Gwyrdd)** |
| **Cydymffurfiaeth a Rheoleiddio - Arall** | **Gofalus:** Ffafrio opsiynau diogel sydd â risg gynhenid ganolig ac sydd â rhywfaint o botensial am wobrau. | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)** |

| | | |
|---|---|---|
| **Pobl - Dysgu a Datblygu** | **Gofalus:** Ffafrio opsiynau diogel sydd â risg gynhenid ganolig ac sydd â rhywfaint o botensial am wobrau. | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)** |
| **Pobl - Y Gweithlu Cyfan** | **Gofalus:** Ffafrio opsiynau diogel sydd â risg gynhenid ganolig ac sydd â rhywfaint o botensial am wobrau. | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)** |

## 4.2. Rheolyddion a Chamau Lliniaru

Mae arnom angen pennu rheolyddion presennol ac unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen i reoli'r risg. Yn gyffredinol, pan fydd y risg yn **Fawr** neu'n **Gritigol**, bydd angen cymryd camau pellach. Pan fydd y risg yn **Gymedrol**, dylid ystyried yn ofalus a oes angen cymryd camau pellach. Pan fydd y risg yn **Fach,** fel arfer nid oes angen cymryd unrhyw gamau a chymerir bod y rheolyddion presennol sydd ar waith yn ddigon ac yn gweithio'n dda.

Mae adnodd i'n helpu i benderfynu ar y camau mwyaf priodol i'w cymryd wrth ymateb i risg, sef Trin, Goddef, Trosglwyddo a Therfynu:

- **Trin:** Y camau gweithredu mwyaf aml fydd trin y risg; hynny yw cymryd camau i leihau tebygolrwydd neu effaith y risg. Dylid neilltuo pob cam gweithredu i swyddog cyfrifol, gydag amserlenni clir a realistig ar gyfer eu cwblhau.
- **Goddef:** Bydd rhai risgiau bach neu nad oes modd eu hosgoi, a bydd cost lleihau'r risg yn fwy na'r manteision. Felly, byddwn yn derbyn y risg ac yn ei monitro rhag ofn i bethau newid.
- **Trosglwyddo:** Mae hyn yn golygu trosglwyddo neu rannu'r risg gyda pharti arall drwy weithredoedd, megis ei roi yn allanol neu drwy yswiriant.
- **Terfynu:** Dileu'r gweithgaredd sy'n achosi'r risg.

Pan fyddwn wedi dynodi rheolyddion addas i'w rhoi ar waith, mae angen cael hyder eu bod yn gweithio'n effeithiol. Byddwn yn dewis un o'r sgoriau sicrwydd a ganlyn i asesu pa mor effeithiol mae ein rheolyddion i reoli'r risg:

- **Sicrwydd Sylweddol**: Mae system gadarn o reolaeth yn bodoli, gyda rheolyddion mewnol yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael eu cymhwyso'n gyson i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion.

- **Sicrwydd Rhesymol**: Yn gyffredinol, mae system reolaeth gadarn ar waith. Nodwyd rhai problemau, diffyg cydymffurfio neu gyfle i wella a allai beryglu cyflawni amcanion.
- **Sicrwydd Cyfyngedig**: Nodwyd bylchau, gwendidau neu ddiffyg cydymffurfio sylweddol. Mae angen gwella'r system reolaeth er mwyn rheoli risgiau'n effeithiol i gyflawni amcanion.
- **Dim Sicrwydd:** Mae angen cymryd camau gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â'r bylchau, gwendidau neu ddiffyg cydymffurfio sylfaenol a nodwyd. Nid yw'r system reolaeth yn ddigonol i reoli risgiau'n effeithiol i gyflawni amcanion.

### 4.3. Perchenogaeth Risg

Yn arferol, perchennog y risg fyddai rhywun sydd mewn sefyllfa i ddylanwadu ar (fwyafrif) y rheolyddion a'r camau gweithredu a nodwyd. Byddai ganddynt drosolwg strategol o'r risg ond nid nhw o anghenraid fyddai perchennog y cam gweithredu. Er enghraifft, ar lefel rhaglen neu brosiect, mae'n debygol mai perchennog y risg fyddai'r rheolwr rhaglen neu brosiect; ar lefel gwasanaeth, y Pennaeth Gwasanaeth fyddai'n cymryd cyfrifoldeb; ac ar gyfer y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, y casgliad o'n risgiau sefydliadol mwyaf difrifol, mae'n briodol bod y Cyfarwyddwyr Strategol a'r Aelodau Cabinet yn cael eu nodi fel perchnogion. Yn ddelfrydol, dim ond un perchennog risg fyddai'n cael ei nodi, ond gyda risgiau mwy cymhleth, gallai fod yn fwy priodol nodi mwy nag un perchennog. Yn achos y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, er mai'r Cyfarwyddwyr Strategol sy'n gyfrifol yn y pen draw, mae gan y Penaethiaid Gwasanaeth rôl i'w chwarae wrth reoli risg, a phan fo'n briodol, dynodwyd rhai mewn rolau cefnogi.

## 5.0. Sut i Fonitro ac Adrodd ar Risg

Mae monitro risgiau yn weithgaredd rheoli arferol a dylid ei hintegreiddio fel rhan o gyfrifoldebau rheoli arferol. Bydd monitro ffurfiol ac adrodd ar risgiau'n digwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn fel bod cyn lleied o golledion â phosibl a bod y camau gweithredu a fwriadwyd yn cael eu cyflawni. Dylid egluro'r holl newidiadau a wnaed i'r risgiau i sicrhau tryloywder a chryfhau ein trywydd archwilio. Bydd hyn yn cynnwys newidiadau i gynnwys y risgiau, newidiadau mewn sgoriau, risgiau newydd ac uwchgyfeirio ac is-raddio risgiau rhwng fersiynau o'r gofrestr. Byddwn yn defnyddio'r dull a ganlyn:

## 5.1. Risgiau Corfforaethol

Bydd Risgiau Corfforaethol yn cael eu monitro'n barhaus, ond cynhelir adolygiadau ffurfiol gan y Cyfarwyddwyr Strategol ac Aelodau'r Cabinet (fel perchnogion risgiau) bob chwe mis o leiaf, gyda mewnbwn gan y timau arwain strategol a'r uwch dimau rheoli ehangach. Yna, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried cynnwys y gofrestr ac yn argymell unrhyw newidiadau i'r Cabinet eu cymeradwyo. Cynhelir adolygiadau manwl ar rai risgiau gyda'r Tîm Arwain Strategol bob chwarter. Mae cynnwys ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan ein Grŵp Gwella ac Archwilio, Archwilio Mewnol a rheoleiddwyr allanol, ac fe'i defnyddir i lywio cynlluniau archwilio blynyddol.

## 5.2. Risgiau Gwasanaethau

Bydd cofrestrau risg gwasanaethau'n cael eu monitro'n barhaus, ond cynhelir adolygiadau ffurfiol gan y Pennaeth Gwasanaeth ac Aelodau Cabinet perthnasol (fel perchnogion risg) bob chwe mis o leiaf, mewn ymgynghoriad â'r rheolwyr gwasanaeth a staff fel bo'n briodol. Bydd cofrestrau risg gwasanaethau hefyd yn cael eu monitro drwy'r broses Adolygu Perfformiad Gwasanaeth.

Dylid codi risgiau gwasanaeth sydd angen cael eu hystyried ar gyfer eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol gyda'r Cyfarwyddwr Strategol perthnasol a'r Tîm Perfformiad a Gwella. Bydd y Grŵp Gwella ac Archwilio'n ystyried y rhain cyn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Tîm Arwain Strategol a'r Cabinet.

Cynhelir adolygiadau ychwanegol gyda'r Tîm Perfformiad a Gwella fel bo angen ar rai gwasanaethau i gynnal adolygiad manwl o risgiau'r gwasanaeth. Bydd Archwilio Mewnol hefyd yn adolygu cofrestrau risg gwasanaethau i lywio eu cynllun blynyddol.

## 5.3. Risgiau Rhaglenni a Phrosiectau

Dylid monitro risgiau rhaglenni a phrosiectau'n barhaus, ond cynhelir adolygiadau ffurfiol gan Weithredwr y Rhaglen / Prosiect a'r Rheolwr Rhaglen / Prosiect bob mis o leiaf, gan gynnwys timau a staff perthnasol. Bydd cofrestrau risg rhaglenni / prosiectau hefyd yn cael eu monitro drwy gyfarfodydd bwrdd y rhaglen / prosiect.

Dylid codi risgiau rhaglenni / prosiectau sydd angen eu huwchgyfeirio ar gyfer Cofrestr Risg y Gwasanaeth neu'r Cofrestr Risgiau Gorfforaethol gyda'r Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwr Busnes perthnasol, neu'r Cyfarwyddwr Strategol a'r Tîm Perfformiad a Gwella fel

bo’n briodol.  Bydd y Grŵp Gwella ac Archwilio’n ystyried ceisiadau i’w cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol cyn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i’r Tîm Arwain Strategol a’r Cabinet.

Mae’r Tîm Arwain Strategol, y Cabinet Anffurfiol a’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau hefyd yn cael adroddiadau am ddangosfwrdd rhaglenni a phrosiectau bob 3 mis.

# 6.0. Rhywbeth i Bawb: Deall Eich Rôl wrth Reoli Risg!

Mae'n bwysig bod pawb yn deall eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau wrth reoli risg.  Yn anad dim, fodd bynnag, rhaid inni gydnabod sensitifrwydd ynghylch materion perfformiad a risg a thrin pawb â pharch a charedigrwydd. Dylai sgyrsiau perfformiad a risg bob amser fod ynghylch cefnogaeth adeiladol ac nid ceisio beio.

- **Teg:** Rydym yn parchu, rydym yn cynnwys, rydym yn sefyll yn gyfartal
- **Gofalu:** Rydym yn buddsoddi, rydym yn cyfathrebu, rydym yn cefnogi
- **Chwaraewr Tîm:** Rydym yn cydweithio, rydym yn grymuso, rydym yn datblygu
- **Arloesol:** Rydym yn gwrando, rydym yn dysgu, rydym yn tyfu

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi crynodeb o'r hyn y gallwch ei ddisgwyl yn eich rôl gyda'r Cyngor a'r hyn yr ydych yn gyfrifol amdano.

## 6.1. Aelodau’r cyhoedd

### Fel aelod o’r cyhoedd rydw i’n disgwyl:

- **Tryloywder a Gonestrwydd**: Rwyf eisiau gwybodaeth glir a gonest am y risgiau sy'n effeithio arnaf.  Rwy'n gwerthfawrogi cael fy niweddaru a chael mynediad at yr holl fanylion perthnasol.
- **Parch ac Urddas**: Rwy'n disgwyl cael fy nhrin â pharch ac urddas ym mhob rhyngweithiad.  Dylid gwerthfawrogi ac ystyried fy marn a'm profiadau.
- **Cymryd Rhan Weithredol**: Rwyf eisiau cyfleoedd i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau am risgiau.  Dylai fy llais gael ei glywed hefyd a dylai fy nghyfraniadau wneud gwahaniaeth sylweddol i bennu sut mae risgiau’n cael eu rheoli.
- **Cefnogaeth a Chyfarwyddyd**: Mar arnaf angen cefnogaeth ac arweiniad i ddeall sut mae risgiau’n cael eu rheoli Mae cyfarwyddiadau clir a gwybodaeth ac

adnoddau defnyddiol, cyfredol sy'n hawdd eu deall yn hanfodol i mi wneud dewisiadau gwybodus.

- **Atebolrwydd**: Rwy'n disgwyl i risgiau gael eu rheoli’n dda i gefnogi anghenion y gymuned, gyda'r rhai sy'n gyfrifol yn atebol am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Dylai fod mecanweithiau ar waith i ymdrin ag unrhyw bryderon neu faterion sy'n codi.

## Rydw i’n gyfrifol am:

- **Ymgysylltu yn Weithredol**: Byddaf yn ymgysylltu'n weithredol mewn prosesau risg ac yn rhoi fy mewnbwn. Mae fy nghyfranogiad yn hanfodol ar gyfer llwyddiant ein hymdrechion ar y cyd.
- **Cael y Wybodaeth Ddiweddaraf**: Byddaf yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y risgiau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnaf.
- **Parchu Eraill**: Byddaf yn trin eraill â pharch ac urddas, yn union fel rwy'n disgwyl cael fy nhrin.
- **Rhoi Adborth Adeiladol**: Byddaf yn rhoi adborth adeiladol i helpu i wella rheoli risgiau’r Cyngor. Gall fy marn arwain at newidiadau cadarnhaol.
- **Cymryd yr Awenau**: Byddaf yn cymryd yr awenau wrth geisio gwybodaeth, gofyn cwestiynau, a chymryd rhan. Bydd fy null rhagweithiol yn cyfrannu at liniaru risgiau a gwella gwasanaethau a'n cymuned.

## Sut mae gwneud hyn?

- Gallwch weld cynnydd cyfredol y Cyngor o ran perfformiad a rheoli risg drwy ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad, a gyhoeddir yn www.conwy.gov.uk/perfformiad.
- Mae cyfarfodydd y Cyngor, yn cynnwys y Cabinet a Chraffu yn gyhoeddus ac mae croeso i chi fynychu. Gallwch hefyd wylio cyfarfodydd ar-lein drwy ein darllediadau gwe, sydd ar gael ar ein tudalennau gwe pwyllgorau.
- Mae gwybodaeth am sut i gysylltu â ni ar gael yma.

## 6.2. Aelodau Etholedig

### Fel aelod etholedig rydw i'n disgwyl:

- **Tryloywder a Gonestrwydd**: Rwyf eisiau gwybodaeth glir a gonest am y risgiau sy'n effeithio ar fy etholwyr. Rwy'n gwerthfawrogi cael fy niweddaru a chael mynediad at yr holl fanylion perthnasol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus.
- **Parch ac Urddas**: Rwy'n disgwyl cael fy nhrin â pharch ac urddas ym mhob rhyngweithiad. Dylid gwerthfawrogi a chefnogi fy rôl a'm cyfrifoldebau.
- **Cymryd Rhan Weithredol**: Rwyf eisiau cyfleoedd i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau am risgiau. Dylai fy llais gael ei glywed hefyd a dylai fy nghyfraniadau wneud gwahaniaeth sylweddol i bennu sut mae risgiau'n cael eu rheoli.
- **Cefnogaeth a Chyfarwyddyd**: Mae arnaf angen cefnogaeth ac arweiniad i ddeall sut mae risgiau'n cael eu rheoli. Mae cyfarwyddiadau clir a gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol, cyfredol sy'n hawdd eu deall yn hanfodol i mi wneud dewisiadau gwybodus a gwasanaethu fy nghymuned yn effeithiol.
- **Atebolrwydd**: Rwy'n disgwyl i risgiau gael eu rheoli'n dda i gefnogi anghenion y gymuned, gyda'r rhai sy'n gyfrifol yn atebol am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Dylai fod mecanweithiau mewn grym i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu faterion sy'n codi, gan sicrhau ein bod yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

### Rydw i'n gyfrifol am:

- **Ymgysylltu yn Weithredol**: Byddaf yn ymgysylltu'n weithredol yn y prosesau risg i ddeall ein risgiau a sut maent yn cael eu rheoli. Byddaf yn rhoi fy marn ar gofrestrau risg, yn nodi bylchau a rhoi llais i'r hyn sy'n bwysig i les preswylwyr.
- **Cael y Wybodaeth Ddiweddaraf**: Byddaf yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y risgiau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar fy nghymuned er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus ac eirioli yn effeithiol.
- **Parchu Eraill**: Byddaf yn trin eraill â pharch ac urddas, yn union fel rwy'n disgwyl cael fy nhrin.
- **Rhoi Adborth Adeiladol**: Byddaf yn rhoi adborth adeiladol i helpu i wella rheoli risgiau gwasanaethau ac yn gorfforaethol. Gall fy safbwyntiau arwain at newidiadau cadarnhaol a chanlyniadau gwell i'r gymuned.

- **Cymryd yr Awenau**: Byddaf yn cymryd yr awenau wrth geisio gwybodaeth, gofyn cwestiynau, a chymryd rhan. Bydd fy null rhagweithiol yn cyfrannu at liniaru risgiau a gwella gwasanaethau a'n cymuned.

**Sut mae gwneud hyn?**

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd, cynrychioli llais y dinesydd.
- Codi materion a phryderon gyda rheolwyr perthnasol.
- Ymgysylltu ac archwilio'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn helpu i roi sail i benderfyniadau a nodi ffyrdd o wneud gwelliannau.

### 6.2.1. Aelodau Cabinet

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod Etholedig, fel aelod o'r Cabinet, rwy'n disgwyl:**

- Gwybodaeth gywir ac amserol am risgiau er mwyn helpu i lywio penderfyniadau a nodi meysydd ar gyfer gwella.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Monitro darpariaeth cynlluniau gwasanaeth a rheolaeth cofrestrau risg gwasanaeth gyda Phenaethiaid Gwasanaeth yn rheolaidd.
- Monitro a llywio'r gwaith o gyflawni ein nodau corfforaethol.
- Monitro a rheoli risgiau ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

**Ydw i wedi?**

- Cyfarfod â'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol yn fy mhortffolio i roi mewnbwn a chytuno ar gynnwys y Cynllun Gwasanaeth a'r Gofrestr Risg?
- Adolygu gwybodaeth perfformiad a risg ar gyfer y Cyngor a'r gwasanaethau rydw i'n eu cynrychioli yn rheolaidd?
- Trafod Risgiau Corfforaethol rydw i'n berchen arnynt gyda'r Cyfarwyddwr Strategol neu Bennaeth Gwasanaeth sy'n cefnogi?
- Adolygu parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn flynyddol?

### 6.2.2. Aelodau Craffu (yn cynnwys rhai cyfetholedig)

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod Etholedig (nid yw'n berthnasol i rai cyfetholedig), fel Aelod Craffu, rwy'n disgwyl:**

- Gwybodaeth gywir ac amserol am risgiau er mwyn helpu i lywio penderfyniadau a nodi meysydd ar gyfer gwella.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Craffu ar gyflawni cynlluniau gwasanaeth a rheoli cofrestrau risg.
- Craffu ar gyflawni nodau'r Cyngor.
- Craffu ar reoli ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol.

**Ydw i wedi?**

- Adolygu Cofrestrau Risgiau Corfforaethol a Gwasanaeth yn rheolaidd?
- Mynychu cyfarfodydd Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth?

### 6.2.3. Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (gan gynnwys aelodau lleyg)

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod Etholedig (nid yw'n berthnasol i aelodau lleyg), fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rwy'n disgwyl:**

- Sicrwydd bod ein prosesau rheoli risg yn gadarn ac yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y Cyngor.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Adolygu a chymeradwyo'r polisi a'r canllawiau ar reoli risg (yn cynnwys parodrwydd i dderbyn risg)
- Monitro bod ein prosesau rheoli risg yn cael eu defnyddio'n briodol.
- Nodi risgiau sy'n ymwneud â llywodraethu ac archwilio sy'n cyfiawnhau craffu pellach

**Ydw i wedi?**

- Adolygu gwybodaeth risg y Cyngor yn rheolaidd? Mae hyn yn cynnwys y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, ond fe allai hefyd gynnwys cofrestrau risgiau gwasanaeth, rhaglen neu brosiect pan fo angen.
- Rhoi mewnbwn i ddatganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor.
- Nodi unrhyw risgiau pellach sy’n cyfiawnhau craffu pellach (naill ai gan y Pwyllgor neu Graffu) i sicrhau bod prosesau risg y Cyngor yn gweithio fel y dylent ar bob lefel. Bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn risg sy’n ymwneud â llywodraethu.

## 6.3. Aelodau Staff

### Fel aelod o staff rwy’n disgwyl:

- **Tryloywder a Gonestrwydd**: Rwyf eisiau gwybodaeth glir a chywir am y risgiau sy'n effeithio ar fy ngwaith a'r cymunedau rwy'n eu gwasanaethu. Rwy'n gwerthfawrogi cael fy niweddaru a chael mynediad at yr holl fanylion perthnasol i gyflawni fy nyletswyddau'n effeithiol.
- **Parch ac Urddas**: Rwy'n disgwyl cael fy nhrin â pharch ac urddas ym mhob rhyngweithiad. Dylid gwerthfawrogi a chefnogi fy rôl a'm cyfraniadau, gan sicrhau y gallaf wasanaethu cymunedau'n effeithiol.
- **Cymryd Rhan Weithredol**: Rwyf eisiau deall risgiau’r Cyngor a'r cyfraniad y mae fy ngwaith yn ei wneud tuag atynt. Dylai fy llais gael ei glywed hefyd a dylai fy nghyfraniadau wneud gwahaniaeth sylweddol i bennu sut mae risgiau’n cael eu rheoli.
- **Cefnogaeth a Chyfarwyddyd**: Mae arnaf angen cefnogaeth ac arweiniad i ddeall sut mae risgiau’n cael eu rheoli. Bydd offer a systemau defnyddiol gyda gwybodaeth gyfoes yn cefnogi datblygiad, cyfathrebu a monitro ein gwybodaeth risg, gan fy helpu i gyflawni fy nyletswyddau'n effeithiol.
- **Atebolrwydd**: Rwy'n disgwyl i risgiau gael eu rheoli’n dda i gefnogi anghenion y gymuned, gyda'r rhai sy'n gyfrifol yn atebol am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Dylai fod mecanweithiau mewn grym i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu faterion sy'n codi, gan sicrhau ein bod yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- **Ymgysylltu yn Weithredol**: Byddaf yn ymgysylltu'n weithredol yn y prosesau risg i ddeall ein risgiau a sut maent yn cael eu rheoli. Byddaf yn rhoi fy marn ar gofrestrau risg, yn nodi bylchau a rhoi llais i'r hyn sy'n bwysig i les preswylwyr.
- **Cael y Wybodaeth Ddiweddaraf**: Byddaf yn cadw ar y blaen â'r risgiau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar ein cymuned ac yn adolygu fy anghenion dysgu a hyfforddi fy hun yn rhagweithiol i wella perfformiad yn barhaus.
- **Parchu Eraill**: Byddaf yn trin eraill â pharch ac urddas, yn union fel rwy'n disgwyl cael fy nhrin.
- **Rhoi Adborth Adeiladol**: Byddaf yn rhoi adborth adeiladol i helpu i wella rheoli risgiau gwasanaethau ac yn gorfforaethol. Gall fy safbwyntiau arwain at newidiadau cadarnhaol a chanlyniadau gwell i'r gymuned.
- **Cymryd yr Awenau**: Byddaf yn cymryd yr awenau wrth geisio gwybodaeth, gofyn cwestiynau, a chymryd rhan. Bydd fy null rhagweithiol yn cyfrannu at liniaru risgiau a gwella gwasanaethau a'n cymuned.

**Sut mae gwneud hyn?**

- Gofyn cwestiynau, cyfrannu syniadau a herio'r ffordd rydym ni'n gwneud pethau.
- Codi unrhyw risgiau neu bryderon gyda rheolwyr neu'r undebau llafur.
- Bod yn rhan o'r broses Cynllunio Gwasanaeth a rhoi eich mewnbwn i'r Cynllun Gwasanaeth a Chofrestr Risg y Gwasanaeth.
- Meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am brosesau rheoli risg y Cyngor.
- Darparu diweddariadau gonest a hawdd eu deall, ar gynnydd fy ngwaith ac unrhyw broblemau yr wyf yn eu cael.

### 6.3.1. Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr Strategol

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod o Staff, fel y Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Strategol, rwy'n disgwyl:**

- i staff fod yn rhan o'n prosesau Rheoli Risg a deall beth yw eu cyfraniad.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Sicrhau bod prosesau rheoli risg yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

- Cefnogi diwylliant o reoli risg yn y Cyngor.
- Monitro’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.
- Rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig ynglŷn â materion sy’n berthnasol iddyn nhw.
- Adolygu risgiau’r gwasanaeth gyda Phenaethiaid Gwasanaeth fel rhan o gyfarfodydd un-i-un rheolaidd.

**Ydw i wedi?**

- Rhoi mewnbwn i’r gynlluniau gwasanaeth a’r cofrestrau risg?
- Adolygu data risg gyda Phenaethiaid Gwasanaeth yn rheolaidd?
- Ymgysylltu â'r broses Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth?
- Adolygu Cofrestr Risgiau Gorfforaethol y Cyngor bob chwe mis o leiaf?
- Adolygu parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn flynyddol?
- Rhoi mewnbwn i Asesiad Lles y Cyngor, a’r broses Hunanasesu barhaus, a defnyddio’r wybodaeth a gasglwyd i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau a rheoli risg i wasanaethau?

### 6.3.2. Penaethiaid Gwasanaeth

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod o Staff, fel Pennaeth Gwasanaeth, rwy'n disgwyl:**

- Cael arweiniad ar reoli risg gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol, Aelodau Cabinet a’r Tîm Perfformiad a Gwella.
- I aelodau Craffu a staff hefyd gyfrannu at ddatblygu a darparu’r gwasanaeth yn cynnwys rheoli risg.

**Rydw i’n gyfrifol am:**

- Monitro’r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.
- Rhoi gwybodaeth i aelodau etholedig ynglŷn â materion sy’n berthnasol iddyn nhw.
- Datblygu, cyfathrebu a darparu’r Cynllun Gwasanaeth, a’r risgiau iddo, gyda budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys diweddaru aelodau etholedig yn rheolaidd ar faterion sy’n berthnasol iddynt.
- Rheoli risgiau i’r gwasanaeth, gyda mewnbwn gan staff, gan sicrhau bod risgiau’n cael eu huwchgyfeirio fel bo angen.
- Sicrhau bod prosesau rheoli risg yn addas i pwrpas ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol, gan hyrwyddo diwylliant o reoli risg  yn y Cyngor.

**Ydw i wedi?**

- Ystyried goblygiadau cynlluniau a risgiau posib?
- Adolygu data risg yn rheolaidd, ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol, yn cynnwys rheolwyr, staff ac Aelodau'r Cabinet, a chwsmeriaid?
- Ystyried yr holl ddyletswyddau deddfwriaethol perthnasol?
- Ymgysylltu â'r broses Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth?
- Adolygu parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn flynyddol?
- Cyfathrebu negeseuon allweddol i staff (da a drwg)?
- Rhoi mewnbwn i Asesiad Lles y Cyngor, a'r broses Hunanasesu barhaus, a defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau a rheoli risg i wasanaethau?

### 6.3.3. Rheolwyr Gwasanaeth

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod o Staff, fel Rheolwr Gwasanaeth, rwy'n disgwyl:**

- Cyfarwyddyd clir gan y Cyngor ac uwch arweinwyr.
- I staff fod yn rhan o gyflawni'r Cynllun Gwasanaeth, yn ymwybodol o Gofrestr Risg y Gwasanaeth ac yn deall eu cyfraniad at ddarparu gwasanaethau'n llwyddiannus.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Helpu'r Penaethiaid Gwasanaeth i gyfathrebu gweledigaeth strategol y Cyngor a chynnwys staff mewn datblygu a darparu'r Cynllun Gwasanaeth a'r risgiau iddo, gan gynnwys diweddaru aelodau etholedig ar faterion sy'n berthnasol iddynt.
- Sicrhau bod staff yn ymgysylltu ac yn ymrwymo â gweithgarwch o fewn y Cynllun Gwasanaeth a chofrestrau risg.
- Cefnogi'r Pennaeth Gwasanaeth i fonitro Cofrestr Risg y Gwasanaeth, a gweithio gydag aelodau o'r tîm.
- Nodi unrhyw risg bosib i ddarparu'r gwasanaeth a thrafod â'r Pennaeth Gwasanaeth.

**Ydw i wedi?**

- Ymgynghori ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol yn ystod datblygu'r Cynllun Gwasanaeth a'r Gofrestr Risg?
- Rhoi sylw i unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol newydd?

- Gwerthuso goblygiadau'r cynllun a'r risgiau posib?
- Gosod disgwyliadau realistig ar gyfer prosiectau a gweithgareddau?
- Adolygu data risg yn rheolaidd i lywio gwelliant y gwasanaeth ei hun?
- Cyfathrebu negeseuon allweddol i staff, da a drwg?
- Rhoi mewnbwn i Asesiad Lles y Cyngor, a'r broses Hunanasesu barhaus, a defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau a rheoli risg i wasanaethau?

### 6.3.4. Rheolwyr Busnes / Swyddogion Perfformiad

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod o Staff, fel Rheolwr Busnes / Swyddog Perfformiad, rwy'n disgwyl:**

- Cael dealltwriaeth glir o broses rheoli risg y Cyngor.
- I gynlluniau gwasanaeth a chofrestrau risg gael mewnbwn a her barhaus gan fudd-ddeiliaid, gan gynnwys y Cyfarwyddwr(wyr) Corfforaethol, Aelod(au) Cabinet, staff, a'r cyhoedd.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Cefnogi'r Pennaeth Gwasanaeth i gwblhau a chyfathrebu Cynllun Gwasanaeth (erbyn 31 Mawrth), a Chofrestr Risg Gwasanaeth, clir a hawdd eu dilyn gan sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu cynnwys a bod staff yn deall eu hymrwymiadau.
- Diweddaru'r Cynllun Gwasanaeth a'r Gofrestr Risg Gwasanaeth yn barhaus, sy'n ddogfennau byw a dylid eu diweddaru'n dilyn unrhyw weithgaredd / datblygiadau newydd yn ystod y flwyddyn.
- Sicrhau bod diweddariadau risg cywir a hawdd eu deall wedi cael eu rhoi yn y system Rheoli Perfformiad CAMMS-Riskonnect o leiaf ddwywaith y flwyddyn.
- Sicrhau bod yr holl sylwadau'n cael eu hysgrifennu mewn Saesneg clir, gan osgoi acronymau.
- Sicrhau bod yr holl newidiadau i'r risgiau'n cael eu hegluro.

**Ydw i wedi?**

- Ymgynghori â'r Tîm Perfformiad a Gwella a'i gynnwys i sicrhau bod cysondeb yn y dull a ddefnyddir?

- Sicrhau bod ystyriaeth i anghenion cwsmeriaid, yn ogystal ag unrhyw ddyletswyddau deddfwriaethol perthnasol?
- Dadansoddi goblygiadau'r Cynllun Gwasanaeth a'r risgiau posib?
- Defnyddio system CAMMS-Riskonnect i helpu i gasglu manylion y Cynllun Gwasanaeth a chynnal y Gofrestr Risg Gwasanaeth?

### 6.3.5. Swyddogion Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol

**Yn ogystal â'm rôl fel Aelod o Staff, fel Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol, rwy'n disgwyl:**

- I Gofrestrau Risg Gwasanaeth gael eu cynnal a'u diweddaru.
- Diweddariadau cywir i'w cyflwyno ar gais, i roi gwybodaeth i aelodau am adroddiadau gyda sylwadau clir a dealladwy lle bo'n berthnasol.
- I risgiau gael eu herio gan fudd-ddeiliaid, yn enwedig gan y Cabinet, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r cyhoedd.

**Rydw i'n gyfrifol am:**

- Cynnal cywirdeb y broses o gasglu data, monitro ac adrodd yn y Cyngor.
- Cefnogi gwasanaethau yn eu cynllunio gwasanaethau a rheoli risg, gan sicrhau cysondeb dull, gan roi sylw dyledus i ystyriaethau deddfwriaethol pwysig fel y Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac ymrwymiadau eraill y Cyngor a phartneriaeth.
- Cynhyrchu gwybodaeth ac adroddiadau cywir fel sy'n ofynnol gan uwch reolwyr, y Cyngor, y Cabinet, Craffu, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Ydw i wedi?**

- Monitro diweddariadau risg yn rheolaidd gan wasanaethau?
- Cefnogi gwasanaethau i fonitro risg yn barhaus fel bo angen?
- Ymgysylltu â'r broses Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth?
- Cynnal cyswllt â gwasanaethau ac uwch reolwyr i sicrhau y caiff risgiau eu cofnodi a'u huwchgyfeirio'n briodol fel bo angen?

## 7.0. Geirfa

Isod mae rhestr o eiriau allweddol yn y canllaw hwn i helpu darllenwyr i ddeall termau pwysig. Mae geirfa lawnach ar gael yn ein *Canllaw Rheoli Perfformiad: Rheoli Perfformiad Er Mwyn Darparu Gwasanaethau Gwell*

**Canlyniad** – canlyniad risg nas ymdrinnir â hi a'r sefyllfa y byddwn yn ei hwynebu pe bai'r risg yn digwydd.

**Rheolaeth** - Proses, polisi, arfer neu weithred arall sy'n gweithio i leihau risg negyddol neu wneud y mwyaf o gyfleoedd cadarnhaol. Gellir hefyd defnyddio 'rheolaeth' mewn proses sydd wedi'i llunio i ddarparu sicrwydd rhesymol ynghylch cyflawni canlyniadau.

**Cynllun Corfforaethol** - Y cynllun strategol cyffredinol ar gyfer y Cyngor ac mae'n ymateb i Gynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n nodi ein prif flaenoriaethau ar gyfer tymor y Cyngor. Mae hwn yn uwch na'r Cynlluniau Gwasanaeth.

**Y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol** - Mae'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol yn eiddo i'r Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain. Mae'n cael ei monitro ganddyn nhw a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rheolaidd (bob chwe mis o leiaf). Mae'n cymryd y risgiau mwyaf difrifol a chyffredin o'r gofrestr risg gwasanaeth a phortffolios y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac mae'n cael ei chadw ar system CAMMS-Riskonnect.

**Digwyddiad** - Pan fydd cyfres benodol o amgylchiadau'n digwydd fyddai'n sbarduno neu'n achosi i risg droi'n broblem. Gall digwyddiad risg fod yn sicr neu'n ansicr. Gall digwyddiad fod yn ddigwyddiad unigol neu'n gyfres o ddigwyddiadau.

**Effaith** – Canlyniad neu effaith digwyddiad. Gall bod mwy nag un effaith o un digwyddiad. Gall effeithiau amrywio o fod yn gadarnhaol i negyddol. Gellir mynegi effeithiau yn ansoddol neu'n fesurol. Mae effeithiau yn cael eu hystyried mewn perthynas â chyflawni canlyniadau

**Sgôr risg gynhenid (gros)** – Sgôr gwerthuso risg cyn i unrhyw reolyddion gael eu nodi i helpu i liniaru'r risg; y risg cyn ystyried rheolyddion presennol a'u heffeithlonrwydd.

**Mater** - Mae'n cyfeirio at ganlyniad risg sydd gennym yn barod, ac mae gweithredoedd lliniaru rheoli ar waith neu'n cael eu cynllunio. Mewn amgylchedd prosiect mae mater yn bwynt neu fater dan sylw neu mewn dadl, neu bwynt neu fater sydd heb ei setlo ond yn cael ei drafod neu'n destun safbwyntiau sy'n gwrthwynebu neu anghytundeb.

**Tebygolrwydd** – disgrifio pa mor debygol yw'r digwyddiad.  Gellir ei fynegi'n ansoddol neu'n fesurol.  Gellir defnyddio tebygolrwydd neu amlder wrth ddisgrifio risg.

**Lliniaru** – Ymyrraeth i leihau effaith bosibl risg

**Sgôr Risg Gweddilliol (net)** - Gwerthusiad risg fel y mae'n sefyll ar hyn o bryd gyda rheolyddion presennol ar waith.

**Risg** - Digwyddiad, os yw'n digwydd, a fydd yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein canlyniadau busnes yn llwyddiannus.  Mae risg yn fesur a ddefnyddir i ddisgrifio'r ansicrwydd mewn perthynas â digwyddiad a'i effaith posibl.

**Parodrwydd i Dderbyn Risg** - Lefel y risg yr ydym yn barod i'w goddef neu ei derbyn wrth gyflawni ein hamcanion strategol hirdymor.

**Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg** - Mae'r fframwaith yn disgrifio'r ymddygiadau ar gyfer pob un o'r dosbarthiadau parodrwydd i dderbyn risg. Mae hyn o gymorth i'r Cyngor asesu ei barodrwydd i dderbyn y fath risgiau.

Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg - Mae'r datganiad yn nodi dull y Cyngor o gymryd risg trwy ddiffinio ei drothwyon parodrwydd i dderbyn risg.

**Asesiad Risg** – proses gyffredinol o adnabod risg, dadansoddi, cynllunio camau gweithredu ac adolygu.

**Hunanasesu Perfformiad** - Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer etholiadau, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad llywodraeth leol. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd arnom i gyhoeddi adroddiad yn nodi canlyniadau ein Hunanasesiad unwaith bob blwyddyn ariannol. Dyma'r dadansoddiad cyffredinol o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei Gynlluniau Strategol - y Cynllun Corfforaethol yn bennaf - ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae ein Hunanasesiad Blynyddol hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'n hymagwedd tuag at reoli risgiau corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

**Cynllun Gwasanaeth** - Sylfaen Rheoli Perfformiad y Cyngor.  Mae'n cynnwys pob dangosydd / mesurau perfformiad a gweithgarwch gwella sy'n ymwneud â'r canlyniadau allweddol y mae gwasanaethau yn eu hystyried yn bwysig. Mae cynlluniau gwasanaeth yn bwydo Cynllun Corfforaethol y Cyngor a Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus  ac maent yn cael eu llofnodi gan yr Aelod Cabinet Arweiniol perthnasol erbyn

31 Mawrth. Mae gan rai gwasanaethau gynlluniau gweithredol hefyd o dan eu cynlluniau gwasanaeth, ond ni chaiff y rhain eu monitro'n gorfforaethol.

**Cynllunio Gwasanaeth** - Gweithgarwch sydd fel arfer yn digwydd rhwng Ionawr a Mawrth er mwyn cytuno ar gynnwys y cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae Swyddogion Perfformiad a Gwella Corfforaethol yn gweithio gyda Rheolwyr Busnes / Swyddog Arweiniol Perfformiad a Phenaethiaid Gwasanaeth i'w datblygu yn CAMMS-Riskonnect. Dylid eu cadw'n gyfredol drwy gydol y flwyddyn. Am fwy o ganllawiau ynglŷn â sut i greu cynllun gwasanaeth, siaradwch gyda'r Tîm Perfformiad a Gwella.

**Cofrestr Risg Gwasanaeth** - Mae'r Gofrestr Risg Gwasanaeth yn cynnwys y risgiau o fewn portffolio Pennaeth Gwasanaeth. Fel y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, mae'r rhain yn cael eu monitro drwy'r system Rheoli Perfformiad CAMMS-Riskonnect.

# Atodiad 1 - Fframwaith a Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg

## 1.0. Cyflwyniad

Mae datganiad parodrwydd i dderbyn risg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn nodi ein dull o gymryd risgiau drwy ddiffinio ein trothwyon parodrwydd i dderbyn risg. Mae'n ddatganiad a fydd yn cael ei adolygu a'i newid yn flynyddol fel bod unrhyw newidiadau i strategaethau neu amcanion y sefydliad neu newidiadau o ran ei allu i reoli risg yn cael eu hadlewyrchu'n gywir. Bydd y wybodaeth yn cael ei lledaenu ledled y Cyngor er mwyn hyrwyddo rheolaeth risg rymus a sicrhau y caiff risgiau eu hadnabod a'u rheoli'n gywir ac yn effeithiol.

## 1.1. Felly, beth yw parodrwydd i dderbyn risg?

Parodrwydd i Dderbyn Risg yw lefel y risg yr ydym yn barod i'w goddef wrth gyflawni ein hamcanion strategol hirdymor. Ein nod yw ystyried pob dewis i ymateb i risg yn briodol a gwneud penderfyniadau gwybodus sydd fwyaf tebygol o arwain at ganlyniad llwyddiannus, wrth darparu lefel dderbyniol o werth am arian hefyd.

Mae derbyn risg yn amodol ar sicrhau y deallir yn llwyr bob mantais a risg posibl a bod camau priodol i liniaru'r risg wedi eu sefydlu cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Rydym yn cydnabod y bydd y parodrwydd i dderbyn risg yn amrywio yn ôl y gweithgaredd dan sylw ac y bydd felly wahanol lefelau o barodrwydd a goddefgarwch. Fodd bynnag, rhaid cadw risgiau dan reolaeth bob amser gyda rheolyddion priodol ar waith.

Nid yw parodrwydd i dderbyn risg yn disodli'r broses uwchgyfeirio a nodir yn y canllaw a'r polisi rheoli risg. Mae risgiau'n dal i gael eu rheoli ar y lefel isaf a mwyaf priodol o fewn y sefydliad ac ni fyddant yn cael eu huwchgyfeirio heblaw pan fo angen cymryd camau sydd y tu hwnt i reolaeth y perchennog risg presennol.

O ran ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol, mae'n bosibl y bydd llawer o'r risgiau ynddi y tu hwnt i'n goddefiadau parodrwydd i dderbyn risg - h.y. maen nhw'n uwch na lefel y risg sy'n dderbyniol gennym. Mae hyn yn iawn ac i'w ddisgwyl yn y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol - mae'r gofrestr yn rhestru'r risgiau mwyaf difrifol sy'n wynebu'r sefydliad ac sy'n sicrhau sylw arbennig ac ymyrraeth gan uwch reolwyr a'r Cabinet. Yn wir, pan fydd risgiau corfforaethol yn dod o fewn ein goddefiad parodrwydd i dderbyn risg, dylid ystyried ymhellach a oes modd cyfiawnhau'r angen iddynt barhau i gael eu monitro yn y Gofrestr

Risgiau Gorfforaethol. Mae Parodrwydd i Dderbyn Risg yn adnodd defnyddiol wrth wneud penderfyniadau ar hyn.

Dosbarthir parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg ar draws ei weithgareddau yn erbyn y raddfa ganlynol sy'n deillio o Lyfr Oren Llywodraeth y DU ar Reoli Risg.

## 1.2. Dosbarthiad a Disgrifiad

| Dosbarthiad | Disgrifiad | Difrifoldeb Risg sy'n cael ei Oddef |
|---|---|---|
| **Arloesol** | Yr awydd i fod yn arloesol a dewis opsiynau sy'n cynnig gwobrau busnes a allai fod yn uwch er gwaethaf mwy o risg gynhenid. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes cyfyngiad ar y risg rydym yn ei derbyn - mae'n dal i gael ei rheoli â rheolyddion. | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)**<br>**Mawr (Oren)**<br>**Critigol (Coch)** |
| **Agored** | Y parodrwydd i ystyried yr holl opsiynau dosbarthu a dewis un sy'n fwyaf tebygol o arwain at gyflawni'n llwyddiannus gyda lefel dderbyniol o wobr (a gwerth am arian). | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)**<br>**Mawr (Oren)** |
| **Gofalus** | Ffafrio opsiynau diogel sydd â risg gynhenid ganolig ac sydd â rhywfaint o botensial am wobrau. | **Bach (Gwyrdd)**<br>**Cymedrol (Melyn)** |
| **Minimalaidd** | Ffafrio opsiynau hynod ddiogel sydd ag ychydig o risg gynhenid ac sydd â'r potensial am wobrau cyfyngedig yn unig. | **Bach (Gwyrdd)** |
| **Niweidiol** | Osgoi risg ac ansicrwydd. | **Ni oddefir unrhyw risg** |

## 1.3. Categorïau Parodrwydd i Dderbyn Risg

Yn defnyddio'r dosbarthiad parodrwydd i dderbyn risg, mae'r canlyniadau o risg ac esiamplau ymddygiad wrth gymryd penderfyniadau fel a ganlyn:

### 1.3.1. Enw Da a Hygrededd:

- **Gwrth risg:** Methu goddef cymryd risgiau os oes unrhyw siawns y byddant yn arwain at sgil-effeithiau negyddol i'r Cyngor (yn lleol neu'n ehangach).
- **Minimalaidd:** Parodrwydd i dderbyn risg yn gyfyngedig i'r digwyddiadau hynny lle byddai sgil-effeithiau sylweddol i'r Cyngor yn hynod o annhebygol.

- **Gofalus:** Ystyried gweithgareddau a allai arwain at fân graffu a sgil-effeithiau o ran enw da ond dim ond lle gellir cymryd camau i leihau'r posibilrwydd o fod yn agored i lefel dderbyniol.
- **Agored:** Cyfforddus i gymryd risgiau a allai beryglu'r Cyngor, ond dim pan ond fo camau priodol wedi cael eu cymryd i reoli perthnasoedd cymunedol a sylw yn y cyfryngau.
- **Arloesol**: Yn awyddus i wneud penderfyniadau sy'n debygol o arwain at graffu sylweddol neu genedlaethol ar y Cyngor, gyda sgil-effaith ar enw da lle ystyrir y byddai'r manteision yn sylweddol. Fodd bynnag, mae risgiau sy'n cael eu rheoli'n dal yn bwysig gyda rheolyddion ar waith.

### 1.3.2. Darpariaeth Weithredol a Pholisi:

- **Gwrth risg:** Y nod yw cynnal neu ddiogelu yn hytrach na chreu ac arloesi. Rheolaethau rheoli a goruchwylio yn flaenoriaeth. Osgoi systemau / datblygiadau technolegol yn gyffredinol.
- **Minimalaidd:** Osgoi systemau / datblygiadau newydd oni bai bod hynny'n hanfodol. Yr awdurdod i wneud penderfyniadau gan uwch reolwyr yn unig. Dim ond datblygiadau hanfodol i systemau / technoleg sy'n cael eu hystyried.
- **Gofalus:** Tueddiad i gadw at y drefn sydd ohoni, osgoi pethau newydd yn gyffredinol, oni bai bod arloesi'n angenrheidiol. Yr awdurdod i wneud penderfyniadau yn tueddu i fod gan uwch reolwyr. Systemau / datblygiadau technolegol yn gyfyngedig i welliannu i ddiogelu'r gweithrediadau cyfredol.
- **Agored:** Cefnogi arloesi, lle rhagwelir gwelliannau mesuradwy. Systemau / datblygiadau technolegol yn cael eu hystyried. Cyfrifoldeb dros benderfyniadau nad ydynt yn gritigol yn cael eu datganoli.
- **Arloesol:** Mynd ar drywydd arloesedd. Dymuniad i newid pethau a herio ffyrdd arferol o weithio. Technolegau newydd yn cael eu hystyried yn alluogwr darpariaeth gwasanaeth hollbwysig. Lefelau uchel o awdurdod datganoledig – rheoli drwy ymddiriedaeth yn hytrach na rheolaeth dynn. Er hynny, mae'r risg yn cael ei rheoli.

### 1.3.3. Ariannol / Gwerth am Arian:

- **Gwrth risg:** Mae osgoi colledion ariannol yn amcan allweddol. Dim ond yn barod i dderbyn yr opsiwn cost isaf / mwyaf diogel. Adnoddau yn cael eu tynnu o weithgareddau nad ydynt yn hanfodol.

- **Minimalaidd:** Dim ond yn barod i dderbyn y posibilrwydd o golledion ariannol cyfyngedig iawn os nad oes unrhyw fodd o gwbl i osgoi hynny. Gwerth am arian yw'r pryder mwyaf.
- Gofalus: Yn barod i dderbyn y posibilrwydd o golledion ariannol cyfyngedig. Gwerth am arian yw'r pryder mwyaf o hyd ond hefyd yn barod i ystyried y manteision ehangach.
- **Agored:** Yn barod i fuddsoddi lle byddai mantais fawr a lle gellid rheoli'r perygl o golled ariannol i lefel y gellir ei goddef. Gwerth a manteision wedi eu hystyried (nid dim ond y pris rhataf). Clustnodi adnoddau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd posibl.
- **Arloesol:** Yn barod i fuddsoddi er mwyn cael y fantais fwyaf a derbyn y posibilrwydd o golled ariannol (er y gallai mesurau rheoli fod yn eu lle). Adnoddau wedi'u dyrannu heb sicrwydd y ceir unrhyw beth yn ôl. Mae'r risg yn dal i gael ei rheoli fodd bynnag, gyda rheolyddion ar waith.

### 1.3.4. Cydymffurfiaeth – cyfreithiol / rheolaethol:

- **Gwrth risg:** 'Chwarae'n ddiogel' heb wyro oddi wrth y gofynion cyfreithiol na rheolaethol. Osgoi unrhyw beth y gellid ei herio.
- **Minimalaidd:** Ystyried dim ond gweithgareddau a fydd yn gwyro dim ond ychydig iawn oddi wrth y disgwyliadau o ran cydymffurfiaeth.
- **Gofalus:** Dim ond yn barod i fentro pan fo perygl o gael eu herio yn isel iawn.
- **Agored:** Rhywfaint o barodrwydd i wyro lle disgwylir her, ond dim ond os ydym yn debygol o fod ar ein hennill a'r enillion yn gorbwyso unrhyw ganlyniadau niweidiol.
- **Arloesol:** Mae'r siawns o golli yn uchel a'r canlyniadau'n ddifrifol ond ennill yn cael ei weld fel buddugoliaeth fawr. Mae rheolyddion yn dal yn bwysig er hyn ac mae'r risg yn cael ei rheoli.

### 1.3.5. Pobl:

- **Gwrth risg:** Dim ymdriniaethau trawsnewidiol yn cael eu hystyried. Cadw'r drefn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Ffafrio rheolaethau rheoli a goruchwylio gofalus.
- **Minimalaidd:** Yn barod i ystyried ymdriniaethau sydd wedi eu profi nad ydynt yn bygwth morâl staff neu delerau ac amodau.
- **Gofalus:** Yn pwyso a mesur manteision posibl ymdriniaethau newydd / heb eu profi ond dim ond os yw'r risg yn isel ac y gellir ei rheoli.

- **Agored:** Yn debygol o ddewis opsiwn sy'n arwain at newidiadau i forâl staff neu delerau ac amodau lle bo hynny'n arwain at werth am arian.
- **Arloesol:** Yn arloesol o ran cymryd risgiau mewn perthynas â'r gweithlu a fydd yn cynnig manteision i staff a'r sefydliad. Disgwyliad bod y staff yn llawn cymhelliant ac yn gallu cynnal eu hunain. Er hynny, mae goruchwyliaeth a rheolyddion ar waith i reoli'r risg.

## 1.4. Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg

Gan ddefnyddio'r fframwaith uchod, rydym wedi cytuno ar y sefyllfa ganlynol o ran parodrwydd i dderbyn risg i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dylai hyn gael ei ystyried gan bob gwasanaeth yn y sefydliad wrth nodi, asesu, rheoli a monitro risg.

### 1.4.1. Enw Da a Hygrededd *(risgiau am yr ymddiriedaeth / hyder sydd gan bobl yn y Cyngor)*

Ystyrir ei bod yn hanfodol bod y Cyngor yn cadw ei enw da. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn barod i dderbyn **risg agored** wrth ymgymryd ag unrhyw un o'i weithgareddau a allai beryglu ei enw da ond dim ond os yw'n hyderus y bydd y canlyniad tebygol yn llwyddiannus.

### **1.4.2.** Darpariaeth Weithredol a Pholisi *(risgiau sy'n canolbwyntio ar nodau hirdymor a'r gwasanaeth mae ein cwsmeriaid yn ei gael)*

Mae'r amgylchedd y mae'r Cyngor yn gweithio ynddo yn newid yn barhaus drwy ei weithrediadau mewnol, y gwasanaethau mae'n eu darparu a'r amgylchedd allanol. Mae arnom eisiau i Gonwy fod yn sir flaengar sy'n creu cyfleoedd. Fel Cyngor, ein nod o hyd yw gwella'n barhaus, bod yn ddyfeisgar ac ymchwilio i ddulliau newydd â meddwl agored. Felly, mae'r Cyngor yn **barod i dderbyn risgiau agored.**

### 1.4.3. Ariannol *(risgiau am golled ariannol a gwerth am arian)*

Nod y Cyngor yw cynnal ei hyfywedd ariannol hirdymor a'i wytnwch ariannol cyffredinol wrth geisio cyflawni ei amcanion strategol ac ariannol. Er y manylir ar yr ymagwedd tuag at risg mewn sawl dogfen allweddol, megis y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwyir yn flynyddol, mae'r pwyntiau allweddol canlynol yn bwysig:

Mae'n ofynnol i'r Cyngor osod cyllideb refeniw gyffredinol gytbwys erbyn dechrau mis Mawrth bob blwyddyn ac mae'n rhaid i'r Penaethiaid Gwasanaeth wedyn gadw gwariant net o fewn cyfansymiau cymeradwy'r gwasanaeth.

Yn unol â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn, bydd isafswm balans cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol o £7 miliwn yn cael ei gadw.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn nodi mewn manylder ymagwedd y Cyngor tuag at risg yn gysylltiedig â benthyg a buddsoddi, sydd wedi'i grynhoi isod:

a. Mae Cod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ac arweiniad Llywodraeth Cymru yn gofyn bod yr Awdurdod yn buddsoddi ei arian yn ddarbodus, ac i roi sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o enillion. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw ceisio cydbwysedd priodol rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion o fethdaliadau a'r risg o dderbyn incwm annerbyniol o isel o fuddsoddiad.

b Mae'r Cyngor yn monitro ei sefyllfa ariannol a'i lefelau cyfraddau llog yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod unrhyw fenthyca hirdymor ychwanegol yn cael ei wneud ar yr amser gorau i sicrhau bod ymrwymiadau cyfalaf cyfredol wedi'u hariannu'n llawn.

Mae'r Cyngor felly'n barod i **Dderbyn Risg Gofalus** mewn perthynas â rheoli'r trysorlys. Yn hanesyddol, roedd y Cyngor yn fodlon bod yn fwy agored i dderbyn risg ar gyfer prosiectau, gan adlewyrchu'r risgiau a'r gwobrau sy'n gynhenid i lawer o'r prosiectau mawr. Fodd bynnag, wrth ymateb i ddirywiad mewn cyllid cyhoeddus, mae parodrwydd i **Dderbyn Risg Gofalus** ar gyfer prosiectau hefyd yn briodol.

### 1.4.4. Cydymffurfiaeth a Rheoliadau *(risgiau yn ymwneud â'r gyfraith, rheoliadau a chanllawiau statudol)*:

Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar ddiogelu lles unigolion a bydd ond yn derbyn risg finimalaidd yn y maes hwn. O ran meysydd eraill sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth, rheoliadau a gwarchod y cyhoedd, mae'r Cyngor yn barod i dderbyn **risg gofalus** mewn achosion o dorri statudau, rheoliadau, safonau proffesiynol, moeseg, llwgrwobrwyaeth neu dwyll.

### 1.4.5. Pobl *(risgiau'n ymwneud â'n gweithlu)*

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei weithwyr yn hollbwysig o ran cyflawni ei amcanion a bod cefnogi a datblygu staff yn allweddol o ran gwneud y Cyngor yn fan gwaith sy'n ysbrydoli perfformiad da. Mae'n rhoi pwysigrwydd ar gynhwysiant, urddas a pharch ac ar les a diogelwch staff. Yn ddiweddar, i gefnogi ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â heriau o ran recriwtio staff, rydym yn gwneud rhai prosesau recriwtio'n fwy hyblyg – mewn modd diogel – i liniaru anawsterau wrth lenwi rolau. Felly, mae gan y Cyngor **Barodrwydd i Dderbyn Risg Gofalus** o ran safonau mewn telerau ac amodau a dysgu a datblygu, lle gellid, yn enwedig o ran dysgu a datblygu, ystyried ymdriniaethau ag ychydig mwy o risg ynghlwm â nhw.

# Atodiad 2 - Nodweddion Risg Gorfforaethol

Mae'n debygol y bydd un neu fwy o'r nodweddion canlynol yn berthnasol i risg gorfforaethol:

- Strategol a thrawsbynciol, gyda'r posibilrwydd o gael effaith ar ystod o wahanol feysydd neu swyddogaethau statudol.
- Mae'n gysylltiedig â gallu'r sefydliad i ddarparu un neu fwy o nodau, amcanion neu ganlyniadau corfforaethol blaenoriaeth uchel (mae'n rhaid i'r cysylltiad â'r canlyniad a beryglir fod yn sylweddol).
- Mae'n cael effaith ar ganlyniadau arfaethedig un o brif raglenni'r sefydliad.
- Mae'n gweithredu dros gyfnod canolig neu hir fel arfer.  Fodd bynnag, gellir ychwanegu risgiau tymor byr pan fo costau sylweddol neu effaith i enw da angen ymyrraeth y Tîm Arwain Strategol a'r Cabinet.
- Mae ganddi'r potensial i gael effaith ddifrifol ar gapasiti sefydliad, er enghraifft, drwy gyfyngu, lleihau neu fethu â manteisio i'r eithaf ar asedau ariannol, corfforol neu adnoddau dynol.
- Mae'n gysylltiedig â gallu'r sefydliad i ddarparu newid trawsnewidiol a mentrau sylweddol, gan barhau â busnes fel arfer.
- Mae'n ymwneud â lles preswylwyr, busnesau, y cyhoedd a staff.
- Mae'n gallu cael effaith sylweddol ac eang ar enw da'r sefydliad.
- Cyflymder effaith/effeithiau'r risg ar y sefydliad.

# Atodiad 3 - Adnodd i helpu i ddynodi achos y risg

## 5 Cwestiwn 'Pam'

1. Nodwch y broblem
2. Nodwch achos y broblem drwy ofyn, "pam ddigwyddodd hyn?"
3. Nodwch nhw mewn tabl neu ddiagram
4. Ar gyfer bob un o'r achosion a nodwyd gennych, gofynnwch eto, "pam fod hyn wedi digwydd?" er mwyn nodi eu hachosion
5. A ydych wedi gofyn "pam" i bob problem 5 gwaith, neu ddigon o weithiau i nodi'r achosion sylfaenol rhesymegol?
6. Os ddim, gofynnwch "pam" nes byddwch wedi nodi'r achosion sylfaenol
7. Ceisiwch ddod o hyd i ddatrysiadau i'r achosion sylfaenol a nodwyd

## Enghraifft

**1. Pam wnaeth y prosiect fethu?**

**Ateb:** Roedd y ffrydiau gwaith yn rhy gymhleth i gael eu darparu'n rhesymol ar amser.

**2. Pam bod y ffrydiau gwaith yn rhy gymhleth?**

**Ateb:** Nid oeddent wedi cael eu mesur yn ddigon da neu eu rhannu'n becynnau gwaith llai.

**3. Pam na chafodd y prosiect ei fesur yn ddigon da?**

**Ateb:** Nid oedd digon o gapasiti i wneud y gweithgaredd.

**4. Pam nad oedd digon o gapasiti?**

**Ateb:** Nid oedd rheolwr prosiect penodol.

**5. Pam nad oedd rheolwr prosiect penodol?**

**Ateb:** Nid oedd cyllid ar gael ar gyfer y swydd hon.

# Atodiad 4 – Templed Cofrestr Risg

## **Risg 01:** [Rhowch deitl y risg]

**Aelod(au) Arweiniol:** [Nodwch enw(au)]

**Swyddog Arweiniol:** [Nodwch enw(au)]

| |
|---|
| **Y wybodaeth ddiweddaraf:**[Nodwch y newidiadau mwyaf diweddar] |

### Disgrifiad:

[Rhowch ddisgrifiad byr o'r risg i ddisgrifio ei chwmpas]

### Effaith / Canlyniadau:

- [Rhowch restr o ganlyniadau]

### Risg Gynhenid: [Rhowch y sgôr cynhenid ac addasu'r lliw (cyfeiriwch at y matrics sgorio)]

### Rheolyddion i Reoli'r Risg (ar waith):

- [Nodwch y rheolyddion sydd ar waith]

**Asesiad o'r Rheolyddion:** [Nodwch yr asesiad o'r rheolyddion (cyfeiriwch at y matrics sgorio)]

### Risg Weddilliol: [Rhowch y sgôr gweddilliol ac addasu'r lliw (cyfeiriwch at y matrics sgorio)]

### O fewn Parodrwydd y Cyngor i Dderbyn Risg?

- [Ydy / Nac ydy]

### Camau Lliniaru:

1. [Nodwch y camau pellach sydd eu hangen i liniaru'r risg]

(**Perchennog y cam gweithredu:** [Nodwch enw(au)]